

Grŵp Cyswllt Pen Llŷn a'r Sarnau

Cofnodion drafft o gyfarfod rhif 25, Grŵp Cyswllt Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau a gynhaliwyd ar 23ain Tachwedd 2017 (yn dechrau am 7pm) ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.

Yn bresennol

Owain Wyn (OW)	Awdurdod Lleol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Cadeirydd)
Alison Hargrave (AH)	Swyddog ACA PLAS
Dafydd Roberts (RO)	AP - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Bill Miller-Jones (BMJ)	Arall - Deifiwr a pherchennog cwch
Rowland Sharp (RS)	AP – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Rhys Jones (RJ)	AP – Cyngor Gwynedd
Freya Bentham (FB)	Awdurdod Lleol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

(PLAS – Pen Llŷn a'r Sarnau)
(AP - Awdurdod Perthnasol)

Cyflwyniad

Croesawodd OW bawb i'r cyfarfod.

Mynegodd OW a'r grŵp eu diolch i Mr Caerwyn Roberts am ei flynyddoedd o ymroddiad fel Cadeirydd y Grŵp Cyswllt. Cytunodd y grŵp i anfon llythyr ar ran y grŵp at Mr Caerwyn Roberts i fynegi eu diolch. Esboniodd OW ei fod wedi cymryd drosodd fel Cadeirydd y Grŵp Cyswllt gan Mr Caerwyn Roberts. Estynnodd groeso hefyd i'r Cynghorydd Freya Bentham i'r grŵp. Roedd FB yn cynrychioli Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn lle'r Cyng. David Roberts.

Cam Gweithredu 1: AH i anfon llythyr o ddiolch at y Cyng. Caerwyn Roberts ar ran y grŵp.

1. Ymddiheuriadau

Catrin Glyn (CGN)	Swyddog Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn
Cyng. Ray Quant (RQ)	Awdurdod Lleol - Ceredigion
Molly Lovett (ML)	AP - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Bob Lowe	Hamdden
Mel Heath	RA - Cyngor Ceredigion
Elin Hughes	RA – Cyngor Gwynedd

2. Nodyn drafft o gyfarfod rhif 24:

Nodwyd fod cyfenw Aeron Williams ar dudalen 2 yn anghywir. Derbyniwyd y nodiadau fel cofnod cywir o'r cyfarfod, ond bod yr enw yn cael ei gywiro.

Cam Gweithredu 2: AH i newid cyfenw Aeron Williams ar dudalen 2 a'i ail-osod ar wefan PLAS.

3. Materion yn codi

- 3.1 Eitem 2 (AH i ddiweddarau rhestr aelodaeth LIL a'i hanfon eto at y grŵp). Eitem ar y rhaglen. ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.2 Eitem 2 (PAWB i edrych ar y rhestr gan anfon awgrymiadau at AH am aelodau newydd ble roedd angen). Eitem ar y rhaglen. ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.3 Eitem 3 (AH i ail-anfon mapiau yACA y llamhidyddion harbwr). ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.4 Eitem 4a (AH i anfon holl adroddiadau Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn). ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.5 Eitem 4a (RS i anfon gwybodaeth at AH am y Maelgwn a welwyd). Eitem ar y rhaglen. ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.6 Eitem 4a (RS i baratoi erthygl fer am y Maelgwn a welwyd i'r cylchgrawn a'i anfon at AH). Yn mynd rhagddo. ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.7 Eitem 4a (AH i anfon sgwrs CNC ar PCPs yn nheulu'r morfil). ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.8 Eitem 4b (RS i anfon diweddariad at AH ar ôl y cyfarfod). Eitem ar y rhaglen. ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.9 Eitem 4d (Pawb i anfon syniadau ariannu at AH). Eitem ar y rhaglen. ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.10 Eitem 5 (AH i ddosbarthu'r cyflwyniad). ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.11 Eitem 6 (AH i wirio ffi docio i gychod mawr). Yn mynd rhagddo. ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***
- 3.12 Eitem 7 (AH i drefnu'r cyfarfod nesaf). ***Gweithredu wedi ei gyflawni.***

4. Rheoli Safle

Rhoddodd AH gyflwyniad oedd yn amlinellu'r gwaith wnaed o Ebrill 2016 - tan heddiw a'r rhaglenni gwaith o nawr tan Mawrth 2018.

Roedd y rhaglen waith o Ebrill 2016 - Ragfyr 2017 yn cynnwys:

- Prosiect Morwellt Porthdinllaen
- Prosiect Lagŵn Morfa Gwyllt
- Prosiect Gwyllo Dolffiniaid
- Cylchgrawn
- Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn
 - o Côt Morol
 - o Prosiect 'Sbwriel Cricieth

Roedd y Rhaglen Waith o Ionawr 2018- Mawrth 2018 yn cynnwys:

- Sicrhau arian
- Gweithio ar brosiectau newydd
- Terfynu'r Cynllun Rheoli
- Adolygu'r Grŵp Cyswllt

Esboniodd AH fod codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o holl agweddau'r gwaith. Ceir rhagor o fanylion ar y prosiectau unigol isod.

4.1 Prosiect Morwellt Porthdinllaen

Esboniodd AH bod Prosiect Morwellt Porthdinllaen yn canolbwyntio ar dair prif elfen:

- Effaith angorfeydd yn yr harbwr mewnol

- Effaith angorfeydd yn yr harbwr allanol
- Effaith cerbydau ar y môrwellt

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Cynhaliwyd nifer o astudiaethau ac arolygon
- Cynhyrchwyd nifer o adroddiadau
- Trafodwyd syniadau ar sut i addasu'r angorfeydd
- Roedd AH wedi dechrau trafod rhaglen fonitro gyda CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Cynhaliwyd cynhadledd ryngwladol yn Nant Gwrtheyrn a daeth 200 o wyddonwyr yno o bedwar ban byd.
- Astudiaeth ar effaith cerbydau ar y morwellt
- Angorion Helix wedi eu harchebu
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio ar agweddau cyfreithiol
- Yr angorfeydd dros ben wedi eu tynnu o'r harbwr mewnol
- Angorfeydd 'trott' wedi eu newid gyda blociau congrid
- Cysylltiadau wedi'u sefydlu â lleoliadau eraill gyda phroblemau tebyg

Gwaith yn mynd rhagddo i'w gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr:

- Paratoi cynllun cyfnewid angorfeydd i'r harbwr mewnol
- Paratoi adroddiad sy'n edrych ar addasiadau i'r harbwr allanol
- Treialu angor heligol
- Cadarnhau pwy sy'n gyfrifol am reoli'r harbwr allanol

4.2 Prosiect Lagŵn Morfa Gwylt

Esboniodd AH i'r prosiect gael ei sefydlu i asesu ac i ddelio â'r materion isod:

- Bawa cŵn
- Ysbwriel
- Sathru
- Ffensys a giatau wedi torri
- Diffyg data monitro

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Ymweliad safle i sicrhau fod yr wybodaeth yn gywir
- Cyfarfod â staff CG
- Cyfarfod â staff CNC
- Lluniwyd adroddiad oedd yn cyflwyno'r morlyn ac yn amlinellu'r materion a'r atebion posib

Esboniodd AH fod llawer o'r materion wedi eu datrys oherwydd bod giât wedi ei gosod. Roedd CG yn dal yn bryderus y bydd y giât yn cael ei niweidio i gael mynediad.

Trafododd y grŵp y mater a chytunwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai:

- Peidio hysbysebu'r safle
- Cadw llygad ar y sefyllfa o ran niwed i'r giât gyda'r bwriad o ddelio â hyn fel mater unigol, os yw'n digwydd
- Peidio cynhyrchu taflenni a phaneli i'r safle

Gwaith yn mynd rhagddo i'w gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr:

- Llunio adroddiad sy'n amlinellu'r gwaith a gwblhawyd a'r dewisiadau rheoli a ddewiswyd

4.3 Prosiect Gwyllo Dolffiniaid

Esboniodd AH mai pwrpas y prosiect Gwyllo Dolffiniaid oedd:

- Ymgysylltu â'r gymuned leol
- Monitro bod cydymffurfio gyda Chod Morol newydd Gwynedd
- Cynorthwyo i hysbysu rheolwyr y safle am famaliaid morol

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Cytunwyd ar Abersoch fel lleoliad
- Lluniwyd adroddiad cychwynnol
- Cynhyrchwyd asesiad risg
- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant i wirfoddolwyr yn 2016 ac yn 2017
- Cynhaliwyd gweithgaredd Gwyllo Dolffiniaid dros yr haf yn 2016 a 2017
- Dychwelwyd arolygon 2016 a 2017

Gwaith yn mynd rhagddo i'w gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr:

- Dadansoddiad o'r canlyniadau
- Cynhyrchu'r adroddiad terfynol

4.4 Cylchgrawn PLAS

Esboniodd AH mai pwrpas y cylchgrawn oedd:

- Hyrwyddo'r ACA
- Darparu diweddariad ar yr holl brosiectau gaiff eu cynnal
- Codi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb yn yr amgylchedd morol

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Comisiynwyd dylunydd fydd yn darparu templed i ganiatáu i ni gynhyrchu rhagor o gylchgronau
- Lluniwyd y dyluniadau cychwynnol.
- Erthyglau wedi eu cwblhau, golygu a'u cyflwyno
- Delweddau wedi eu cyflwyno

Gwaith yn mynd rhagddo i'w gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr:

- Cynnal cystadleuaeth i enwi'r cylchgrawn
- Rhoi sylwadau ar ddrafftiau'r dylunydd
- Cyfieithu
- Dosbarthu (2018)

4.5 Prosiect Ecosystemau Morol Llŷn

Esboniodd AH mai'r isod yw'r prosiect:

- Prosiect ar y cyd rhwng yr ACA a Chymdeithas Pysgotwyr Cymru ac eraill
- Gweithio gyda'r diwydiant pysgota lleol i ddatblygu model o gyd-reoli'r amgylchedd morol o amgylch Llŷn.
- Gweithredu rhai prosiectau i arddangos y model

Esboniodd AH hefyd fod nifer o adroddiadau wedi eu llunio ac roeddent ar gael ar wefan PLAS.

4.6 Prosiect 'Sbwriel Cricieth

Esboniodd AH bod y prosiect yn canolbwyntio ar dri prif faes:

- Glanhau traethau
- Monitro
- Lleihau ysbwriel o'r tarddle

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau glanhau traethau
- Sefydlwyd gorsaf fonitro ar y traeth
- Roedd nifer o sesiynau monitro wedi eu cwblhau gyda'r gymuned leol
- Lansio ymgyrch y gwelltyn olaf (i ostwng y gwellt plastig a ddefnyddir). Roedd mwy na 10 busnes wedi arwyddo i un ai beidio defnyddio gwellt o gwbl neu i ddefnyddio rhai sy'n fiogdiraddadwy.
- Lansio #bwrdd glanhau traeth 2 funud yng ngogledd Cymru. Cyfieithodd y prosiect y bwrdd ac mae bwyty Dylan ar y traeth wedi mabwysiadu'r bwrdd. Roeddent yn ei roi allan bob dydd gan sicrhau fod digon o fagiâu a ffyn codi sbwriel. Y syniad yw bod pobl yn treulio dau funud yn codi sbwriel gan wedyn anfon neges trydar am hyn.
- Trafodwyd ac edrychwyd ar nwyddau biogdiraddadwy.

Gwaith yn mynd rhagddo i'w gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr:

- Cynhyrchu pecyn cymorth fydd yn crynhoi'r gwaith a wneir fel bo pentrefi/busnesau yn gallu cymryd rhan.

Trafodaeth grŵp:

- Soniodd DR fod yna lawer o sbwriel plastig amaethyddol yn yr aberoedd.
- Awgrymodd OW y dylid codi ymwybyddiaeth am y mater yma yn y Parc Cenedlaethol.

4.7 Côt Morol

Esboniodd AH mai pwrpas y côd morol oedd mynd i'r afael gyda materion o amharu ar famaliaid morol gan gychod pleser.

Gwaith wedi'i gwblhau:

- Côt wedi ei lunio i Wynedd, Ynys Môn a Chonwy
- Roedd pob awdurdod lleol wedi mabwysiadu'r Côt
- Codau wedi eu dosbarthu drwy bob awdurdod lleol
- Codau wedi eu hyrwyddo

Gwaith yn mynd rhagddo i'w gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr:

- Adroddiad terfynol i gynhoi y gwaith a wnaed

Trafodaeth grŵp:

- Awgrymodd y grŵp y gellid gosod y posteri yn y marinas
- Soniodd BMJ fod gan ddeifwyr eu cod a'u cylchgrawn eu hunain. Cyfle i hyrwyddo'r safle a'r côd morol.

4.8 Codi ymwybyddiaeth am ymgysylltu â rhanddeiliaid

Esboniodd AH fod llawer o waith wedi mynd i'r ddwy elfen yma ac roeddent yn cynnwys:

- Ymweld ag ysgolion
- Arddangosfa ACA mewn sioeau

- Gwefan a chyfryngau cymdeithasol
- Cyflwyniadau
- Cyhoeddusrwydd (y wasg, erthyglau, radio)
- Sioe deithiol addysg forol gyda APCE
- Cydweithio
- Cyhoeddusrwydd ar draethau

5. Diweddariad Cyffredinol

Darparodd AH ddiweddariad cyffredinol ar faterion sy'n ymwneud â'r ACA:

- 5.1 Grŵp Llywio Rheolaeth MPA
 - Roedd AH ar y grŵp yma ac yn darparu'r cyswllt i reolwyr lefel safle ac i faterion
 - Ni fu llawer o gynnydd eleni
 - Bydd y cyfarfod nesaf ar y 30ain Tachwedd
 - Mae'r grŵp yn bwriadu llunio cynllun darparu MPA

- 5.2 Cynllunio morol
 - Mae AH ar y grŵp yma i ddarparu cyswllt rhwng rheolwyr MPA a chynllunio morol
 - Bydd ymgynghori ar y cynllun morol am 16 wythnos
 - Cynhelir digwyddiad cyhoeddus yn Ionawr 2018
 - Dylai gael ei weithredu ganol 2018 ond gallai gael ei ohirio i ddiwedd 2018 os ystyrir fod ymchwiliad annibynnol yn angenrheidiol

- 5.3 Grŵp Tasg a Gorffen sbwriel Llywodraeth Cymru
 - Eglurodd AH ei bod ar y grŵp hwn ar gais y rhanddeiliaid
 - Prosiect lefel Cymru
 - Clywodd y grŵp am brosiect Cricieth ac roeddent yn awyddus i'w gyflwyno ar draws Cymru
 - Roedd PLAS a'r prosiect sbwriel wedi eu cynnwys mewn cyflwyniad gan Croeso Cymru a roddwyd ar draws Cymru.

- 5.4 Y Cynulliad Cenedlaethol - ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o ddelio gyda rheolwyr MPA
 - Roedd argymhellion wedi mynd i Lywodraeth Cymru
 - Roedd Llywodraeth Cymru wedi ateb
 - Roedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi gofyn am ragor o fanylion

- 5.5 Mynychodd AH weithdy MPA yng Nghaerwysg. Rhoddodd gyflwyniad ar PLAS. Roedd yn gyfle gwych i rannu syniadau gyda swyddogion eraill. Gwnaeth AH gysylltiadau da gyda ardaloedd eraill gyda materion tebyg.

- 5.6 Trefnodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gynhadledd angorfeydd DU i helpu hyrwyddo Prosiect Morwellt Porthdinllaen. Rhoddodd AH gyflwyniad gan wneud cysylltiadau ardderchog gyda phrosiectau eraill. Roedd y digwyddiad yn ffordd dda o godi proffil y prosiect ar lefel DU.

- 5.7 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i AH fynd â staff Llywodraeth Cymru a'r AC Lesley Griffiths ar ymweliad safle â Phorthdinllaen i ddysgu am ACA a Phrosiect Morwellt Porthdinllaen. Rhoddodd AH sgwrs ac arwain taith gerdded.
- 5.8 Mae CNC yn arwain ar brosiect mynediad a hamdden fydd yn helpu i hyrwyddo codau morol presennol a gwybodaeth drwy ddarparu plattfform ar-lein.
- 5.9 Mae 2018 yn flwyddyn y môr.
- 5.10 Bu Prosiect Morwellt Porthdinllaen ar raglen 'Countryfile'.
- 5.11 Mynychodd AH weithdy Marine Ecosystems Research Programme (MERP). Mynegodd AH bryder fod y prosiect i weld yn atgynhyrchu cynllun rheoli'r safle a phrosiect N2K a gwblhawyd yn ddiweddar.

6. Cyllid a phrosiectau i'r dyfodol

Eglurodd AH fod arian wedi'i sicrhau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018.

Esboniodd AH ei bod wedi bod yn ymchwilio i nifer o ffrydiau i ariannu'r gwaith o Ebrill 2018 ymlaen. Ychwanegodd AH fod nifer o fidiau wedi eu cyflwyno ac roedd yn aros i glywed rhywbeth yn ôl.

Esboniodd AH am y prosiectau oedd yn cael eu hystyried yn 2018.

- Ymchwilio i'r amodau maetholion sydd eu hangen i gynnal nodweddion yr aber
- Ymchwilio i'r pysgod sy'n crynhoi yn yr Aberoedd
- Adfer cimychiaid yr afon (crayfish)
- Prosiect dyfrgwn
- Lleihau dŵr ffo amaethyddol

Trafodaeth grŵp:

Trafododd y grŵp y posibilrwydd o gael arian drwy Croeso Cymru gan fod 2018 yn flwyddyn y môr.

7. Cynllun Rheoli

Esboniodd AH y byddai'n gweithio i orffen adolygu y cynllun rheoli yn fuan yn 2018. Eglurodd bod y drafft bron a'i gwblhau ac fe fyddai yn ei anfon i bawb gael rhoi sylwadau pan fyddai'n barod.

8. Grŵp Cyswllt

Esboniodd AH y bu ychydig o newidiadau i aelodaeth y Grŵp Cyswllt ac roedd rhai seddi gwag. Esboniodd AH y byddai'n adolygu aelodaeth y grŵp yn fuan yn 2018.

Trafodaeth grŵp:

- Awgrymodd OW y dylid anfon y cylch gorchwyl a rhestr o'r aelodau i'r grŵp.
- Awgrymodd BMJ y dylai fod mwy o NGOs ar y grŵp. Nododd AH fod yn rhaid i'r grŵp gael cydbwysedd o ran diddordebau. Byddwn yn edrych ar hyn pan gaiff y grŵp ei adolygu yn 2018.

Cam Gweithredu 3: AH i anfon y cylch gorchwyl a rhestr o'r aelodau i'r grŵp.

9. Prosiect y Maelgwn

Rhoddodd RS gyflwyniad ar Brosiect y Maelgwn CNC. Esboniodd hefyd fod cais HLF wedi ei gyflwyno ac roedd wedi llwyddo i fynd ymlaen i'r cylch nesaf. Soniodd MH y gallai helpu i ddsbarthu yn ACA Bae Ceredigion.

Cam Gweithredu 4: *RS i anfon copi o gyflwyniad y Maelgwn a phoster at AH*

Cam Gweithredu 5: *AH i ddsbarthu'r cyflwyniad am y Maelgwn a phoster*

Cam Gweithredu 6: *RS i anfon gwybodaeth berthnasol at AH a MH am y Maelgwn*

Cam Gweithredu 7: *AH a MH i ddsbarthu a phostio unrhyw wybodaeth berthnasol am y maelgwn ar y cyfryngau cymdeithasol*

Trafodaeth grŵp:

- Trafododd y grŵp fod y map yn dangos fod y maelgwn ger Harlech. Cadarnhaodd RS hyn a dywedodd eu bod o amgylch Mochras yn arbennig.
- Ychwanegodd RS y byddai yn beth da os y gallai pobl anfon lluniau os oedd yn bosib.
- Ychwanegodd RS y byddai'r maelgwn yn cael ei ychwanegu ar yr apiau adrodd presennol.
- Nododd BMJ fod ymwybyddiaeth yn bwysig a rhoddodd enghraifft o'r gobi mannog yr ystyriwyd ei fod wedi diflannu tan i offer sgwba fod ar gael ac yna fe welodd deifwyr y pysgodyn yma ymhobman.
- Nododd RS fod yna ddryswch gyda'r enw maelgi.

10. Adroddiad lefel safle CNC

Rhoddodd RS ddiweddariad ar gynydd adroddiadau lefel safle CNC.

Roedd asesiadau cyflwr dangosol wedi eu paratoi i'r cyfan o'r 69 nodwedd ACA morol yng Nghymru. Roeddent wedi bod drwy'r cam sicrwydd ansawdd gyda JNCC. Roedd hyn wedi golygu oedi gyda eu cyhoeddi. Cyhoeddir yr asesiadau dangosol yn yr adroddiadau lefel safle. Roedd adroddiad sengl wedi ei lunio ar gyfer yr asesiadau cyflwr dangosol i'r ACAau morol yng Nghymru. Y dyddiad arwyddo i'r adroddiadau hyn oedd mis Rhagfyr ac wedi hynny byddant yn cael eu hanfon at LIC, pwyllgor CCERA a rhanddeiliaid (yn cynnwys RAG PLAS), er ni ellid cadarnhau union ddyddiad dosbarthu ond hyderir y bydd hyn cyn y Nadolig.

Cam Gweithredu 8: *AH i anfon adroddiad lefel safle PLAS at y grŵp unwaith y bydd ar gael.*

11. Diweddariad monitro CNC

Crynhodd RS waith monitro CNC yn 2017.

Monitro rhynglanwol:

Nodwedd / priodoledd	Dull	Safleoedd
<i>Sabellaria</i> cyflwr y riff	Ail-adrodd arolwg o raddau a chyfansoddiad rhywogaeth riffiau Sabellaria i arfarnu cyflwr y riff	Llandanwg, Gor. afon Dwyfor

<i>Pectenogammarus</i> dosbarthiad a dwysedd	Cofnodi o nifer ostyngol o orsafoedd astudio blaenorol. Gwirio graddau LGS.Pec biotope	Pwllheli
Cwadratau traeth creigiog	Ail-adrodd samplu 12 cwadrat traeth	Porth Oer
Cyfansoddiad rhywogaethau isfilodaidd rhynglanwol aberol	Ailadrodd y samplu ar draws y prif aberoedd, yn cynnwys cofnodi rhywogaethau amlwg, paramedrau amgylcheddol a samplu craidd (x 5 gwaith)	Gorsafoedd craidd Glaslyn/Dwryrd (x 9 gorsaf craidd isfilodaidd)
Cyfansoddiad rhywogaethau isfilodaidd rhynglanwol yr arfordir agored	Ailadrodd y samplu mewn tri lleoliad, yn cynnwys cofnodi rhywogaethau amlwg, paramedrau amgylcheddol a samplu craidd (x 5 gwaith)	Morfa Harlech, Morfa Dyffryn, Traeth y Greigddu a Dwyrain Cricieth
Graddau a chyflwr <i>Zostera noltii</i> a gwelyau <i>Z. marina</i>	Mesur y terfyn a'r dwysedd gan ddefnyddio grid o samplau cwadrat	Penychain

Monitro islanw:

- **Monitro'r Dolffin trwynbwl:** Nid yw CNC wedi rhoi contract i unrhyw waith monitro BND yn 2017, er hynny, maent wedi hwyluso rhai arolygon BND gan Pedryn yn PLAS gyda'r Sea Watch Foundation.
- **Morloi:** CNC wedi comisiynu cyfrifiad lloi morloi eleni ar draws gogledd Cymru yn cynnwys PLAS.
- **Riff Holden** (y Riff o darddiad Methân Awthigenig Carbonad): Mae CNC wedi cynnal arolwg graddau o hyn gan ddefnyddio Sonar Sganio Ochr.
- **Riff Modiolws:** Mae CNC wedi cynnal arolwg graddau o hyn gan ddefnyddio Sonar Sganio Ochr.
- **Morfa Gwylt:** Gwaith monitro isfilodaidd, yn cynnwys logio halltedd a thymheredd.
- **Gwaddod islanwol;** Samplwyd 4 gorsaf bum gwaith gyda sampl cipolwg dydd i asesu patrwm y gymuned ar waelod y môr a bioamrywiaeth a chyfansoddiad gwaddodion dros amser (caiff y gorsafoedd hyn eu samplu yn flynyddol) ym mae Tremadog.
- **Riffiau:** Nid oedd CNC wedi cynnal unrhyw waith monitro o'r riffiau drwy ddeifio yn PLAS eleni.

Soniodd RS hefyd fod y *Gracilaria vermicolphylla* sef planhigion ymledol nad oedd yn gynhenid wedi ei ddarganfod ar y cob yn y Glaslyn Dwryrd.

Trafodaeth grŵp:

- Eglurodd RS bod y planhigyn yma yn deillio o Siapan.
- Ychwanegodd RS ei fod yn blanhigyn anodd i'w ddifa.

- Nododd BMJ fod prosiect 'Capturing Our Coast' yn codi ymwybyddiaeth o blanhigion sydd ddim yn gynhenid.

12. Unrhyw fater o bryder neu ddiddordeb

Bill Miller-Jones

Esboniodd BMJ y bu sawl enghraifft o bobl yn ceisio helpu lloi morloi yn y dŵr, heb ddeall nad oedd y lloi mewn trafferth. Gallu lloi morloi farw o hyn. Ychwanegodd fod yr ymddygiad yma yn llawn bwriad da ond roedd diffyg ymwybyddiaeth. Awgrymodd BMJ y byddai arwyddion yn defnyddiol ac fe allai helpu gyda hyn. Soniodd AH fod ACA Bae Ceredigion wedi gwneud peth gwaith ar hyn a gallai PLAS efallai ddefnyddio yr un wybodaeth. Nododd y grŵp fod gwaith tebyg yn digwydd yn Sir Benfro.

Cam Gweithredu 9: *AH i edrych ar fater tarfu ar loi y morloi.*

Dafydd Roberts

Esboniodd DR bod Cynllun Gwella Gweledol y Grid Cenedlaethol wedi neilltuo £500 miliwn i wella darpariaeth weledol yr AHNE a'r Parciau Cenedlaethol. Esboniodd DR fod yr ardal rhwng Minffordd a Llandecwyn wedi ei dewis fel un o'r lleoliadau. Bydd y prosiect yn golygu tynnu peilonau ac efallai twnelu'r ceblau. Bydd angen cais cynllunio yn 2018. Bydd elfen o'r gwaith yma yn PLAS.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf

7 o'r gloch, 22ain Mawrth 2018, Plas Tan y bwlch.

Cam Gweithredu 10: *AH i drefnu'r cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt.*

Tabl gweithredu

Cam Gweithredu	Gweithred	Perchennog
1	AH i anfon llythyr o ddiolch at y Cyng. Caerwyn Roberts ar ran y grŵp.	Alison Hargrave
2	AH i newid cyfenw Aeron Williams ar dudalen 2 a'i ail-osod ar wefan PLAS.	Alison Hargrave
3	AH i anfon y cylch gorchwyl a rhestr o'r aelodau i'r grŵp.	Alison Hargrave
4	RS i anfon copi o gyflwyniad y Maelgwn a phoster at AH	Rowland Sharpe
5	AH i ddsbarthu'r cyflyniad am y Maelgwn a phoster	Alison Hargrave
6	RS i anfon gwybodaeth berthnasol at AH a MH am y Maelgwn	Rowland Sharpe
7	AH a MH i ddsbarthu a phostio unrhyw wybodaeth berthnasol am y maelgwn ar y cyfryngau cymdeithasol	Alison Hargrave a Melanie Heath
8	AH i anfon adroddiad lefel safle PLAS at y grŵp unwaith y bydd ar gael.	Alison Hargrave
9	AH i edrych ar fater amharu tarfu ar loi y morloi.	Alison Hargrave
10	AH i drefnu cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt.	Alison Hargrave